PRICHARD, ROWLAND HUW (1812 - 1887), cerddor

Enw: Rowland Huw Prichard
Dyddiad geni: 1812
Dyddiad marw: 1887
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 14 Ionawr 1812 yn y Graienyn, ger y Bala. Hanoedd o deulu'r bardd Roland Huw.

Dysgodd gerddoriaeth yn ieuanc, a llafuriodd drwy ei oes gyda chaniadaeth a cherddoriaeth. Yn 1844 dug allan *Cyfaill y Cantorion* yn cynnwys tua 40 o donau, y rhan fwyaf ohonynt o'i waith ef; ynddo ceir ei dôn ' Hyfrydol,' 8.7.D a gyfansoddodd yn 20 oed. Cyhoeddodd hefyd *Y Fasged Gerddorol*, sef crynodeb o egwyddorion cerddoriaeth. Cyfansoddodd a chynganeddodd lawer o donau a rhai anthemau, a cheir hwynt yn *Haleliwia*, 1849, *Haleliwia Drachefn*, 1855, *Llyfr Emynau a Thonau* (Stephen a Jones), a chasgliadau eraill. Symudodd i Dreffynnon yn 1880 yn swyddog dan y ' Welsh Flannel Manufacturing Co. '

Bu farw 25 Ionawr 1887, ac yn eglwys St. Pedr, Treffynnon y claddwyd ef.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Mehefin 1893

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)

J. W. Jones, *Adgofion Andronicus*, t.49

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rowland Huw Pritchard

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 28360245

Wikidata: Q7372176

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu